**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNED A TAI**
**11 MEDI 2024**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau a Thai Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd fel cyfarfod hybrid ddydd Mercher, 11 Medi 2024.

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | **Y Cynghorydd Marion Bateman (Cadeirydd)** |
| Y Cynghorwyr: | Gillian Brockley, Helen Brown, Tina Claydon, Geoff Collett, Rosetta Dolphin, David Evans, Debbie Owen, Ted Palmer, Kevin Rush a Dale Selvester |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr: Mynychodd y Cynghorwyr Bernie Attridge, Paul Johnson a Ant Turton fel arsyllwr |
| **DIRPRWYON:** | Y Cynghorydd: Rob Davies (ar gyfer Chrissy Gee) |
| **CYFRANWYR:** | Y Cynghorydd Sean Bibby (Aelod Cabinet Tai); Rheolwr Gwasanaeth - Refeniw a Chaffael; Rheolwr Gwasanaeth (Lles Tai a Chymunedau); Rheolwr Gwasanaeth (Asedau Tai); Rheolwr Gwasanaeth Tai ac Atal, a'r Rheolwr Tîm Perfformiad Busnes |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu a Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**17. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)**

Datganodd y Cynghorydd Ted Palmer gysylltiad personol fel tenant y Cyngor.

**18. COFNODION (Dolen i'r Recordiad)**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 12 Mehefin 2024 a chofnodion cyfarfod 17 Gorffennaf 2024 i'w cymeradwyo.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 12 Mehefin ac 17 Gorffennaf 2024 fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

**19. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL AC OLRHAIN CAMAU GWEITHRED (Dolen i'r recordiad)**

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu y Rhaglen Waith bresennol a'r dogfennau Olrhain Camau Gweithredu.

Cynghorodd yr Hwylusydd y byddai'r adroddiadau blynyddol canlynol yn cael eu hychwanegu i'r Rhaglen Waith yn y cyfarfod:-

- Rhaglen Grant Cymorth Tai
- Digartrefedd

- Cofrestr Tai Cyffredin

Gofynnodd y Cynghorydd Helen Brown i ychwanegu'r adroddiadau canlynol i'r Rhaglen Waith er ystyriaeth y Pwyllgor yng nghyfarfodydd y dyfodol:-

- Rheoli Ystadau ac Eiddo - cynnwys cymdogaethau glân a thaclus, gwarchod ein buddsoddiad ac eiddo gwag, ac ail gyflwyno CYA ac arolygon rheoli tenantiaeth;
- NEW Homes - papur dewisiadau ar gyfer manteision ac anfanteision cadw NEW Homes fel cwmni masnachu; a
- Dewisiadau ar ailddynodi eiddo Tai Gwarchod nad oes galw mawr amdanynt

**PENDERFYNWYD**:

(a) Nodi'r Rhaglen Waith;

(b) Rhoi awdurdod i'r Hwylusydd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, i amrywio'r Rhaglen Waith rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; a

(c) Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd a wnaed ar y camau gweithredu oedd i'w cwblhau.

**20. INCWM RHENT TAI (Dolen i'r recordiad)**

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth - Refeniw a Chaffael adroddiad ar ddiweddariad gweithredol ar gyfer cyfraddau casglu rhent tai, gan gynnwys sefyllfa derfynol diwedd blwyddyn rhent 2023/24, a safle presennol 2024/25.

Mewn ymateb i gais gan y Cynghorydd Helen Brown, cytunodd y Rheolwr Gwasanaeth - Refeniw a Chaffael i siarad â'r Rheolwr Gwasanaeth (Asedau Tai) yn dilyn cyfarfod i drafod pa setiau data ynghylch colledion Treth y Cyngor y gellir eu darparu mewn adroddiadau diweddaru yn y dyfodol.

Cytunodd y Rheolwr Gwasanaeth - Refeniw a Chaffael, Dave Barnes i ddarparu dadansoddiad o ddiddymiadau hefyd, a fyddai'n cynnwys gwybodaeth o'r rhesymau am y diddymiadau mewn adroddiadau yn y dyfodol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Dale Selvester, cytunodd y Rheolwr Gwasanaeth - Refeniw a Chaffael i adolygu pa setiau data y gellir eu darparu ynghylch effaith ariannol o beidio casglu cyfraddau dŵr erbyn hyn.

Mewn ymateb i gwestiynau pellach gan y Cynghorydd Dale Selvester, cytunodd y Rheolwr Gwasanaeth - Refeniw a Chaffael i ddarparu dadansoddiad dienw o rhai o'r achosion o ôl-ddyledion uchaf mewn adroddiadau yn y dyfodol.

Gofynnodd y Cadeirydd a fyddai modd darparu enghraifft o Gontract Tenantiaeth i'r Pwyllgor. Cytunodd y Rheolwr Gwasanaeth (Lles Tai a Chymunedau) i ddarparu hyn yn dilyn y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD**:

Bod y Pwyllgor yn nodi sefyllfa derfynol diwedd blwyddyn 2023/24 a'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf ar gyfer casgliadau rhent 2024/25.

## 21. COSTAU BYW A DIWYGIO'R GYFUNDREFN LES (Dolen i'r recordiad)

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth (Lles Tai a Chymunedau) adroddiad i ddarparu gwybodaeth am effeithiau Diwygio'r Gyfundrefn Les, a'r argyfwng costau byw ar breswylwyr, a'r ystod o fesurau sy'n cael eu gweithredu i helpu'r sawl a effeithir arnynt er mwyn ceisio, pan fo'n bosibl, lliniaru'r effeithiau negyddol.

Argymhellodd y Cynghorydd Helen Brown argymhelliad ychwanegol, sef llythyr gan y Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, i'w anfon at y Gweinidog Gwaith a Phensiynau, yn gofyn bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i dynnu'r dreth ystafell wely greulon, a fyddai'n tynnu pobl allan o'r argyfwng costau byw.

Yn dilyn cwestiwn am y lwfans tanwydd gaeaf, dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth (Lles Tai a Chymunedau) y byddai'n anfon dolen i wefan y Cyngor yn dangos gwybodaeth a lleoliadau canolfannau clyd ledled y Sir i'r Pwyllgor, ar ôl y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r gwaith parhaus i reoli'r effaith y mae diwygio'r gyfundrefn les a'r argyfwng costau byw yn eu cael, ac y byddant yn parhau i'w cael, ar rai o'r preswylwyr mwyaf diamddiffyn; a

(b) Bod y Pwyllgor yn nodi'r mesurau cymorth a roddwyd ar waith drwy Lywodraeth Cymru a'r Cyngor i liniaru'r effeithiau

(c) Bod y Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at y Gweinidog Gwaith a Phensiynau, yn gofyn bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i dynnu'r dreth ystafell wely greulon, a fyddai'n tynnu pobl allan o'r argyfwng costau byw.

## 22. ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2023/24 I GYNNWYS ADRODDIAD PERFFORMIAD DIWEDD BLWYDDYN CYNLLUN Y CYNGOR 2023/24 (Dolen i'r recordiad)

Cyflwynodd y Rheolwr Tîm Perfformiad Busnes yr adroddiad sy'n nodi dadansoddiad o berfformiad y Cyngor yn erbyn Amcanion Lles, Blaenoriaethau, ac is flaenoriaethau ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2023/24 Cynllun y Cyngor (2023-28). Roedd Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn darparu crynodeb o berfformiad hefyd, mewn perthynas â meysydd canolbwyntio eraill y Cyngor, h.y. Gweithgarwch Partneriaeth a Chydweithio, yn ogystal â'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn cefnogi Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2023/24, wedi'i gyfuno ag adroddiad Perfformiad Diwedd Blwyddyn Cynllun y Cyngor 2023/24, gan nodi'r perfformiad a gyflawnwyd.

**23.** **RHEOLI CARTREFI GWAG** **(Dolen i'r Recordiad)**

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth - Tai ac Asedau y ffigyrau allweddol a'r gweithgareddau allweddol yn ôl y Cynllun Gweithredu ar Unedau Gwag, fel yr amlinellir yn y nodyn briffio.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r diweddariad.

**24.** **AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD**

None.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 11.23am)

………………………………………….

**Y Cadeirydd**

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau a Thai eu gwe ddarlledu, ac mae modd eu gwylio drwy fynd i'r llyfrgell gwe-ddarllediadau yma: http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home